# Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i dynnu’n ôl

Ni fydd y cyhoeddiad hwn yn cael ei ddiweddaru bellach.
Darganfyddwch y wybodaeth ddiweddaraf am Bensiwn y Wladwriaeth.
Darganfyddwch faint o Bensiwn y Wladwriaeth allwch chi ei gael.

# Esbonio eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth

Adran Gwaith a Phensiynau

**DWP042W** 04/16

# Cynnwys

**4 Adran 1 – Arolwg o Bensiwn y Wladwriaeth**
**4 Cyflwyniad**
4 Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?
6 Sut y gallaf gael Pensiwn y Wladwriaeth?
7 Beth yw blwyddyn gymhwyso?
7 Pam oes yn rhaid i mi dalu cyfraniadau YG pan mae gennyf ddigon o flynyddoedd cymhwyso eisoes i gael Pensiwn y Wladwriaeth lawn?
8 Pa bryd allaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?
8 Sut ydwyf yn gwneud cais am fy Mhensiwn y Wladwriaeth?
8 A oes rhaid i mi ei hawlio ar unwaith?

**9 Adran 2 – Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth**
9 Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth
9 Gorchymyn rhannu pensiwn
10 Eithrio a pham efallai ein bod wedi cynnwys swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn eich datganiad
10 Cyflwyniad
10 Beth yw eithrio?
11 A wnaethoch chi eithrio?
12 Sut mae hyn yn effeithio ar y swm o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch?
13 Sut ydych yn cael eich taliad o'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio?
14 A yw'r swm o Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn warantedig?
15 Pam ychwanegu'r ddau swm – Pensiwn y Wladwriaeth a Phensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio – at ei gilydd?
15 Os bydd eich swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn newid a fydd hyn yn effeithio ar eich swm o Bensiwn y Wladwriaeth?
16 Pam efallai nad yw eich datganiad pensiwn yn rhoi amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth

## 18 Adran 3 – Pensiwn newydd y Wladwriaeth

17 Pa mor aml ddylwn i gael datganiad?
18 Sut fyddwch yn gweithio allan fy swm cychwynnol?
20 Beth yw'r isafswm cyfnod cymhwyso?
20 A fydd y swm cychwynnol a ddangosir yn fy natganiad yn newid os bydd blynyddoedd cymhwyso ychwanegol yn cael eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniad YG am flynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016?
21 Pa bryd fyddwch yn gallu dweud wrthyf beth fydd y swm cychwynnol?
22 A fydd blynyddoedd cymhwyso wedi eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniad YG am flynyddoedd treth o 6 Ebrill 2016 ymlaen yn gwella fy Mhensiwn y Wladwriaeth?
26 Beth os oes gennyf lai na 10 o flynyddoedd cymhwyso ym mis Ebrill 2016?
25 A fydd fy Mhensiwn newydd y Wladwriaeth yn mynd i fyny pob blwyddyn?
26 Beth sy'n digwydd os oes gennyf orchymyn rhannu pensiwn?
26 Ble gallaf gael gwybod mwy ynglŷn â Phensiwn newydd y Wladwriaeth?
26 Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich priod neu bartner sifil
26 Beth a allaf etifeddu os ydwyf yn weddw?
27 Beth allaf gael os rwyf wedi talu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig?
28 Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth wrth dalu cyfraniadau YG gwirfoddol

## 29 Adran 4 – Gweithio neu fyw y tu allan i'r DU

29 Amser wedi ei dreulio'n gweithio y tu allan i'r DU
29 Effaith ar Bensiwn y Wladwriaeth y DU
30 Taliadau Pensiwn y Wladwriaeth y DU y tu allan i'r DU

## 31 Adran 5 – Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

# Adran 1 – Arolwg o Bensiwn y Wladwriaeth

## Cyflwyniad

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:

- Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?
- Sut byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth
- Pa bryd y gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth, a
- Sut rydych yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth

## Beth yw Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd y gallech ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Nid oes rhaid i chi roi'r gorau i weithio pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch barhau i weithio a pharhau i hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth. Neu efallai y byddwch yn penderfynu oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth tan yn ddiweddarach – gweler tudalen 8.

Mae'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cael ei gyflwyno ar 6 Ebrill 2016. Fel rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth bydd yn cael ei weithio allan wrth ddefnyddio rheolau'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

I weithio allan eich amcangyfrif  Pensiwn y Wladwriaeth a'r esiamplau yn y daflen hon rydym wedi defnyddio gwerth 2015/16 ar gyfer y gyfradd lawn o'r Pensiwn y Wladwriaeth (£151.25 yr wythnos).  Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi bydd y gyfradd lawn o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016 yn £155.65 yr wythnos. Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr esiamplau yn y daflen hon.

Os ydych wedi byw neu weithio yn flaenorol yn Ynys Manaw, darllenwch y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

Os ydych yn byw yn y DU, mae Pensiwn y Wladwriaeth fel arfer yn cynyddu bob blwyddyn er mwyn ystyried chwyddiant. Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, dim ond os ydych yn byw mewn gwledydd penodol y telir y cynnydd i chi – gweler tudalen 34.

Nid yw Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar brawf modd. Os oes gennych gynilion, buddsoddiadau neu bensiynau eraill pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, nid ydynt yn effeithio ar werth eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, mae'r Pensiwn y Wladwriaeth yn cyfrif fel incwm trethadwy. Bydd rhaid i chi dalu Treth Incwm os yw cyfanswm eich incwm (gan gynnwys eich Pensiwn y Wladwriaeth) yn fwy na'ch lwfans treth.

Dod o hyd i fwy o wybodaeth ar **www.gov.uk/tax-national-insurance-after-state-pension-age**

Os ydych yn cael budd-daliadau penodol pan rydych yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, gallai'r budd-daliadau ddod i ben neu cael eu lleihau.

Bwriad Pensiwn y Wladwriaeth yw bod yn rhan o'ch incwm ymddeol. Gallwch benderfynu i wneud pethau yn awr i gael mwy o arian i fyw arno pan fyddwch yn ymddeol. Er enghraifft, os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, efallai y byddwch yn gallu ymuno â chynllun pensiwn yn y gwaith, neu efallai bod gennych gynilion neu fuddsoddiadau eraill.

Dod o hyd i wybodaeth ar-lein am rai o'r pethau efallai y byddwch am ei wneud i gynyddu eich incwm ymddeol.

**www.gov.uk/plan-retirement-income**

Os oes gennych gynilion pensiwn preifat eisoes, efallai y gallwch gael mynediad atynt mewn ystod o ffyrdd gwahanol. Mae'r Llywodraeth wedi tynnu'r cyfyngiadau ar beth y gallwch wneud os oes gennych bensiwn cyfraniad diffiniedig (pensiwn yn seiliedig ar faint sydd wedi cael ei dalu i'r pot). Mae gennych nawr y rhyddid i ddewis yr opsiwn sydd orau i chi.

I gael hyd i fwy ynglŷn â'ch opsiynau ar-lein, gan gynnwys gwybodaeth ar sut y gallwch gael mynediad i gyngor am ddim a diduedd ar eich opsiynau ymddeol, ymwelwch â **www.pensionwise.gov.uk**

## Sut ydw i'n cael Pensiwn y Wladwriaeth?

Mae faint o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd cymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau YG. Gallwch gael blwyddyn gymhwyso drwy dalu cyfraniadau YG, cael credydau YG – gweler isod – neu gymysgedd o'r ddau.

Os ydych yn gweithio ac yn ennill mwy na swm penodol, a ddim wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto, rhaid i chi dalu cyfraniadau YG. Mae'r union swm y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar:
- faint rydych yn ei ennill, a
- p'un a ydych chi'n gyflogedig ynteu'n hunangyflogedig.

Os nad ydych yn gweithio a ddim yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, efallai y byddwch yn gallu cael credydau YG. Gall y rhain helpu i gynnal eich cofnod cyfraniadau YG ac felly ddiogelu eich hawl i Bensiwn y Wladwriaeth a rhai budd-daliadau eraill. Efallai y byddwch yn cael credydau YG os, er enghraifft:
- ydych yn ddi-waith ac yn cael Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol
- na allwch chi weithio oherwydd salwch ac yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- os ydych yn gofalu am blentyn o dan 12, ac yn cael, neu wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant, neu
- rydych yn gofalu am rywun a gwneud cais am Gredydau Gofalwr.

Mae'n bwysig i wneud yn siŵr eich bod wedi cael yr holl gredydau y mae gennych hawl iddynt, mewn rhai achosion mae'n rhaid i chi wneud cais amdanynt – nid ydynt yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniad YG yn awtomatig. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gredydau Yswiriant Gwladol a sut i'w cael ar

**www.gov.uk/national-insurance-credits/overview**

Efallai eich bod chi neu eich cynllun pensiwn preifat wedi dewis mynd allan (gelwir yn eithrio) o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn berthnasol i incwm am gyfnodau cyn 6 Ebrill 2016. Gallwch gael gwybod sut y gallai hyn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth ar dudalen 12.

## Beth yw blwyddyn gymhwyso?

Os ydych yn gyflogedig, 'blwyddyn gymhwyso' yw blwyddyn dreth (6 Ebrill – 5 Ebrill) lle rydych wedi ennill (neu wedi cael eich credydu ag ennill) isafswm o un swydd. Yn 2015/2016 yr isafswm yw £5,824.

Os ydych yn hunangyflogedig, 'blwyddyn gymhwyso' yw blwyddyn dreth (6 Ebrill – 5 Ebrill) lle rydych wedi talu 52 o gyfraniadau Dosbarth 2. Mae'n rhaid i chi dalu'r rhain os ydych yn ennill o leiaf £5,965 y flwyddyn, ond gallwch eu talu yn wirfoddol os ydych yn ennill o dan y swm hwn.

Mae unrhyw gredydau YG sydd gennych (gweler tudalen 6) a chyfraniadau YG gwirfoddol rydych wedi'i dalu (gweler tudalen 32) yn cael eu cymryd i ystyriaeth pan yn gweithio allan p'un ai os yw blwyddyn dreth yn flwyddyn gymhwyso.

Felly, os ar ddiwedd y flwyddyn dreth rydych wedi ennill (neu wedi cael eich credydu ag ennill) yr isafswm neu fwy, neu wedi talu 52 o gyfraniadau Dosbarth 2, yna mae hynny'n flwyddyn gymhwyso. Nid oes ots os ydych yn gweithio'n rhan-amser neu lawn-amser.

## Pam fod rhaid i mi dalu cyfraniadau YG pan wyf eisoes gyda digon o flynyddoedd cymhwyso i gael Pensiwn y Wladwriaeth lawn?

Hyd yn oed os oes gennych ddigon o flynyddoedd cymhwyso i gael Pensiwn y Wladwriaeth lawn, os nad ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto rhaid i chi barhau i dalu cyfraniadau YG os ydych yn:

- gyflogai sy'n ennill dros £155 yr wythnos, neu
- hunangyflogedig ac yn ennill dros £5,965 y flwyddyn.

Mae cyfraniadau YG yn ariannu'r Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau eraill y wladwriaeth sydd mewn taliad heddiw (megis Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a budd-daliadau profedigaeth), yn ogystal â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Efallai y bydd y cyfraniadau YG rydych yn ei dalu yn helpu i'ch diogelu os oes angen i chi hawlio un o'r budd-daliadau eraill cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r rheolau cymhwyso ar gyfer y budd-daliadau hyn yn wahanol i'r rhai ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth.

## Pa bryd y gallaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Y dyddiad cynharaf y gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth yw pan fyddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae eich datganiad yn dangos y dyddiad rydych yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar y gyfraith ar hyn o bryd.

## Sut ydwyf yn gwneud cais am fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Ychydig cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth byddwn yn anfon llythyr atoch. Bydd hwn yn dweud wrthych beth rydych angen wneud er mwyn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Cewch wybod mwy yn
**www.gov.uk/state-pension/how-to-claim**

Mae' n hawdd a diogel iawn i wneud eich cais Pensiwn y Wladwriaeth ar lein, gydag awgrymiadau bob cam o'r ffordd. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos, fel y gallwch wneud cais ar amser sydd orau i chi.

**www.gov.uk/claim-state-pension-online**

## A oes rhaid i mi wneud cais amdano ar unwaith?

Nid oes rhaid i chi wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth pan rydych yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch oedi gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth hyd at ddyddiad hwyrach. Gelwir hyn yn ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, a gelwir y swm a gewch yn Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Cyn belled ag eich bod yn oedi gwneud eich cais am o leiaf naw wythnos, ac nid ydych yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth penodol eraill yn ystod y cyfnod hwn, pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi ei ohirio o'r diwedd efallai byddwch yn gallu cael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth am oes. ac mae'r swm rydych yn ei gael yn cael ei alw'n rhagor o Bensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag ni fydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn gallu etifeddu eich Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn
**www.gov.uk/new-state-pension/eligibility**

# Adran 2 – Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:

- sut rydym wedi gweithio allan yr amcangyfrif Pensiwn y Wladwriaeth a ddangosir yn eich datganiad
- eithrio a sut efallai ein bod wedi cynnwys swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn eich datganiad
- pam efallai nad yw eich datganiad yn rhoi amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth

## Eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r amcangyfrif o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir yn eich datganiad yn seiliedig ar:

- y gyfradd o Bensiwn y Wladwriaeth bresennol ar yr adeg y cynhyrchwyd eich datganiad
- swm Pensiwn y Wladwriaeth newydd o £151.25 yr wythnos – bydd y gyfradd wirioneddol yn cael ei benderfynu yn nes at yr amser y mae'n dechrau yn Ebrill 2016
- y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni i helpu i baratoi eich datganiad, a'r
- wybodaeth yn eich cofnod cyfraniadau YG ar yr adeg eich datganiad ei gynhyrchu.

Nid yw eich amcangyfrif yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfraniadau neu gredydau pellach y gellir eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG.

## Gorchymyn rhannu pensiwn

Os ydych wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu, fel rhan o'ch setliad efallai y bydd y llysoedd wedi gwneud gorchymyn rhannu pensiwn.

Os ydym yn gwybod bod gennych orchymyn rhannu pensiwn, bydd ei werth ar hyn o bryd yn cael ei roi yn eich datganiad. Mae'r swm hwn, a fydd yn cael ei ail-werthfawrogi bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd mewn enillion cyfartalog, yn cael ei ychwanegu at, neu ddidynnu o'ch Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gweler tudalen 28 am ragor o wybodaeth ar orchmynion rhannu pensiwn.

## Eithrio a pham efallai rydym wedi cynnwys swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn eich datganiad.

### Cyflwyniad

Cyn 6 Ebrill 2016 mae Pensiwn y Wladwriaeth wedi'i wneud i fyny o ddwy ran.

- Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth - mae hwn yn gyfradd safonol sydd ar hyn o bryd yn rhoi £115.95 yr wythnos (£119.30 yr wythnos o Ebrill 2016) unwaith mae gennych 30 o flynyddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG).
- Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (a elwir ar hyn o bryd yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth neu S2P - galwyd yn flaenorol yn SERPS) Mae hwn yn talu symiau gwahanol yn dibynnu ar eich enillion yn ogystal â pha fath o gyfraniadau neu gredydau YG sydd gennych.

Efallai bod pobl wedi cyfrannu i'r Cynllun Ymddeol Graddedig, ffurf gynharach o Bensiwn y Wladwriaeth yn berthnasol i enillion, rhwng 1961 a 1975.

Ar gyfer pobl sy'n cyrraedd eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, bydd y system o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cael ei ddisodli gan y Pensiwn newydd y Wladwriaeth sy'n seiliedig ar swm sengl Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar sail enillion. Rydym yn defnyddio eich cofnod YG hyd at 6 Ebrill 2016 i weithio allan Swm Cychwynnol ar gyfer y system Pensiwn newydd y Wladwriaeth (gweler tudalen 20).

## Beth yw eithrio?

O dan y system Pensiwn y Wladwriaeth bresennol hyd at Ebrill 2016 byddwch wedi gallu 'eithrio' o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Mae hyn yn golygu y gallech chi a'ch cyflogwr dalu llai o gyfraniadau YG i mewn i'r system y Wladwriaeth. Ni allwch eithrio o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Gallech dim ond eithrio allan ( 'eithrio') o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, a byddwch ond yn talu swm is o Yswiriant Gwladol os ydych yn rhan o bensiwn preifat – fel pensiwn gweithle neu gynllun pensiwn personol - a allai gronni i gymryd lle'r Pensiwn y Wladwriaeth rydych yn dewis eithrio ohonno.

**www.gov.uk/additional-state-pension**

Os ydych chi, neu roeddech mewn cynllun cyflog terfynol neu pensiwn gyrfa cyfartalog neu, cyn 6 Ebrill 2012 roeddech mewn unrhyw gynllun pensiwn yn y gwaith, rydych yn debygol o fod wedi eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Roedd rhai cynlluniau cyfranddeiliaid a phensiwn personol hefyd wedi eithrio.

Felly, er efallai nad ydych wedi sylweddoli hyn, pan gawsoch eich eithrio, yn dibynnu ar y math o gynllun (iau) pensiwn roeddech yn perthyn iddynt yn ystod y cyfnod (au) roeddech wedi eithrio, naill ai:

- rydych chi a'ch cyflogwr wedi talu Yswiriant Gwladol (YG) ar gyfradd is na'r gyfradd safonol llawn; neu
- roedd rhai o'r cyfraniadau YG a dalwyd gennych yn cael eu defnyddio i gyfrannu at eich pensiwn preifat yn hytrach na'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

O 6 Ebrill 2016 nid oedd pobl bellach yn gallu eithrio a bydd holl weithwyr yn talu'r un gyfradd o YG. Os ydych wedi cael eich eithrio yn y gorffennol, bydd angen i ni ystyried hyn yn y swm o Bensiwn y Wladwriaeth newydd a gewch. Peidiwch ag anghofio pan oeddech yn eithrio, byddwch yn adeiladu pensiwn gweithle neu bensiwn (au) personol yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth roeddech wedi eithrio ohonno.

## A wnaethoch chi eithrio?

Bydd eich Datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn dweud wrthych os ydych wedi cael eich eithrio. Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi cael eu heithrio ar ryw adeg yn ystod eu bywyd gwaith.

Roedd llawer o gynlluniau pensiwn gweithle lle mae'r pensiwn a gewch yn gysylltiedig â'ch enillion (er enghraifft – Budd-dal Diffiniedig, cyflog terfynol neu gynlluniau cyflog cyfartalog) yn eithrio holl aelodau eu cynllun fel rhan o'u rheolau'r cynllun.

Roeddech chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraniadau YG ar gyfradd is i

system y wladwriaeth. Efallai nad oeddech yn gwybod eich bod yn talu llai o YG i'r Wladwriaeth, ond peidiwch ag anghofio bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith eich bod yn adeiladu pensiwn preifat amgen yn lle hynny.

Os oeddech yn aelod o gynllun gweithle nad yw'n gysylltiedig â'ch enillion (a elwir weithiau yn gynllun Cyfraniadau Diffiniedig neu Brynu Arian), neu brynu pensiwn personol neu bensiwn cyfranddeiliaid gan ddarparwr pensiwn, efallai eich bod hefyd wedi cael eich eithrio o'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Yn dibynnu ar y math o gynllun, naill ai roeddech chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraniadau YG ar gyfradd is neu rai o'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael eu talu i mewn i'ch cynllun pensiwn preifat yn hytrach nag adeiladu i fyny y Pensiwn y Wladwriaeth ar sail enillion cawsoch eich eithrio ohonno.

## Sut mae hyn yn effeithio ar faint o Bensiwn y Wladwriaeth gewch chi?

Mae'n bwysig nodi os ydych wedi cael eich eithrio, taloch gyfraniadau YG neu cafodd rhywfaint o'ch YG ei dalu i'ch cynllun pensiwn preifat yn lle hynny, felly  rhoesoch i fyny rhywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth yn gyfnewid. Mae hyn yn golygu y bydd y swm amcangyfrifedig o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir ar dudalen 1 eich datganiad yn is nag ar gyfer pobl mewn amgylchiadau tebyg nad oeddent wedi eithrio.

Fodd bynnag, dylai'r pensiwn a gewch gan eich cynllun pensiwn gweithle neu bensiwn personol ar gyfer y cyfnodau roeddech wedi'ch eithrio, gynnwys swm sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cyfateb i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y byddech wedi'i gael pe na fyddech wedi eich eithrio. Rydym yn galw hyn yn eich  Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio.  Rydym wedi cynnwys amcangyfrif o'r swm hwn ar dudalen 1 eich datganiad. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym o'ch cofnod cyfraniadau YG.

Os,  ar unrhyw bryd cyn 6 Ebrill 1997, roeddech yn aelod o gynllun (iau) gweithle lle mae'r swm y pensiwn a gewch yn seiliedig ar eich enillion (a elwir yn aml yn Fudd-dal Diffiniedig, Cyflog Terfynol neu gynlluniau Cyflog Cyfartaledd Gyrfa) ac rydych wedi gadael y cynllun

(iau) ar ôl hynny, mae eich swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn ystyried sut mae eich cynllun (iau) yn ailbrisio eich budd-daliadau pensiwn wedi'i cadw bob blwyddyn.

Os oeddech yn aelod o ddau neu fwy o gynlluniau eithrio, mae'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio a ddangosir yn seiliedig ar eich holl gynlluniau,ac felly yn cwmpasu pob un o'r blynyddoedd cawsoch eich eithrio.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn darganfod, pan fydd y Pensiwn y Wladwriaeth s'yn cael ei dalu gan y Llywodraeth yn cael ei ychwanegu at eu swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio,  bydd hyn yn o leiaf y swm llawn y Pensiwn y Wladwriaeth newydd erbyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth (y swm llawn yw  £155.65 yr wythnos o Ebrill 2016).

## A fydd fy nghynllun (iau) pensiwn yn talu'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio ar wahân?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich pensiwn gweithle neu bensiwn (au) personol  yn cynnwys swm sy'n gyfwerth â'r amcangyfrif Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio  yn eich datganiad. Nid yw hyn fel arfer yn cael ei nodi ar wahân ond yn cael ei dalu gan eich cynllun (iau) pensiwn fel rhan o gyfanswm eich buddion pensiwn.

Bydd y dyddiad pan fyddwch yn cael eich pensiwn gweithle neu bensiwn personol, a swm llawn a gewch, yn dibynnu ar reolau eich cynllun (iau) ac o bosibl unrhyw ddewisiadau buddsoddiad a wnewch (gweler tudalen 14 / isod).

Os ydych yn ansicr pryd bydd eich pensiwn gweithle neu bensiwn personol yn cael ei dalu i chi, cysylltwch â'ch cynllun i gael gwybod. Os ydych yn ansicr o'u manylion cyswllt, gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn.

**www.gov.uk/find-lost-pension**

## A fyddaf bob amser yn cael swm sy'n cyfateb i'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio o fy mhensiwn gweithle, pensiwn/personol?

### (a) Cynlluniau yn seiliedig ar enillion

Mae'n ofynnol i gynlluniau sy'n talu swm o bensiwn yn seiliedig ar eich enillion (a elwir yn aml yn gynlluniau Budd Diffiniedig, Cyflog Terfynol neu gynlluniau Cyflog Cyfartaledd Gyrfa ) i ddarparu budd-daliadau yn lle'r Pensiwn y Wladwriaeth cafoch eich eithrio ohonno, yn gyfnewid am ganiatáu i aelodau a chyflogwyr i dalu Yswiriant Gwladol is.

Fodd bynnag, os ydych wedi gadael cynllun roeddech yn aelod ohonno unrhyw bryd rhwng 1978 a 1997, gallai'r pensiwn preifat gwirioneddol a gewch am y cyfnodau roeddech yn eithrio fod yn uwch na'r amcangyfrif o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth y byddech wedi adeiladu i fyny am y cyfnod hwn  y swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd eich cynlluniau talu swm sy'n cyfateb i'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio COPE os :

- aeth eich cynllun i drafferthion ariannol a dirwyn i ben wedi'i danariannu;
- cafodd eich hawliau eu trosglwyddo i gynllun nad oedd yn gysylltiedig â'ch enillion a nid oedd buddsoddiadau yn y cynllun hwnnw yn perfformio'n dda.

Dylech wybod os yw hyn yn berthnasol i chi, ond os ydych yn ansicr ac yn meddwl y gallech gael eich effeithio gallwch gysylltu â'ch cynllun.

### (b) Os nad yw eich pensiwn yn seiliedig ar eich enillion

Bydd cynlluniau pensiwn wedi'i heithrio ble nad yw eich pensiwn preifat yn gysylltiedig â'ch enillion (a elwir weithiau yn gynllun Cyfraniadau Diffiniedig neu Brynu Arian), neu bensiwn cyfranddeiliaid neu bensiwn personol yn talu budd-daliadau yn ôl y enillion buddsoddi ar y cyfraniadau a wnaed.

Mae hyn yn golygu y bydd y swm pensiwn a gewch yn dibynnu ar

berfformiad eich buddsoddiadau (e.e. lle mae eich cronfa bensiwn yn cael ei fuddsoddi a faint fydd y buddsoddiadau hyn yn cynyddu), a'r dewisiadau a wnewch pan fyddwch yn penderfynu sut i gymryd eich cronfa.

Er enghraifft, o dan diwygiad hyblygrwydd pensiwn a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015, efallai y byddwch yn cymryd peth neu'r cyfan o'ch cronfa bensiwn fel taliad arian parod. Bydd y swm y byddwch yn gymryd yn effeithio ar eich swm incwm pensiwn - ac os ydych yn penderfynu cymryd eich holl gronfa bensiwn fel taliad arian parod, ni fyddwch yn cael unrhyw incwm pensiwn.

Os ydych yn defnyddio eich buddsoddiad pensiwn i brynu blwydd-dal sy'n darparu incwm pensiwn rheolaidd, bydd y math o flwydd-dal byddwch yn ei brynu hefyd yn penderfynu eich incwm pensiwn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn:
**www.pensionwise.gov.uk**
**www.gov.uk/pension-types**

## Os ydych wedi ysgaru neu mae eich partneriaeth sifil wedi'i ddiddymu

Os o ganlyniad i chi gael ysgariad neu mae eich partneriaeth sifil yn cael eu diddymu, mae'r llysoedd wedi dyfarnu cyfran o'ch pensiwn preifat i'ch cyn bartner, efallai y bydd eich incwm gweithle neu bensiwn personol yn is.

i gael gwybod mwy gallwch wirio:
**www.gov.uk/workplace-pensions**
**www.pensionwise.gov.uk**

## Pam ychwanegu'r ddau swm - Pensiwn y Wladwriaeth a Phensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio - gyda'i gilydd?

Trwy ychwanegu at ei gilydd eich symiau Pensiwn y Wladwriaeth a Phensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio gallwch weld sut dylai eich cofnod Yswiriant Gwladol cyn i'r Pensiwn y Wladwriaeth newydd ddechrau

ar 6 Ebrill 2016, fod wedi cyfrannu at eich incwm pensiwn cyffredinol - gallai eich pensiwn preifat gwirioneddol fod yn fwy neu'n llai na'ch swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio.

## Os bydd eich swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn newid a fydd hyn yn effeithio ar eich Swm Cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth?

Pan fyddwn yn gweithio allan eich Swm Cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth (gweler tudalen 19), rydym yn ystyried eich swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio COPE (gweler tudalen 21).

O dan rai amgylchiadau, mae'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio COPE yn cael ei gynnwys yn eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu pan gaiff ei werthuso eto fel yr oedd ar 6 Ebrill 2016. Bydd hyn yn digwydd os ydych yn dal yn aelod o gynllun pensiwn eithrio hyd at 6 Ebrill, 2016.

## Gwybodaeth bwysig - os ydych chi wedi byw neu weithio yn Ynys Manaw

Os ydych wedi gweithio a thalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn flaenorol yn Ynys Manaw,

Rydym wedi gweithio allan yr amcangyfrif yn eich datganiad yn seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol y DU ac Ynys Manaw. Mae hyn oherwydd o dan y trefniadau nawdd cymdeithasol presennol rhwng y DU ac Ynys Manaw, dim ond y wlad lle rydych yn byw s'yn talu Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar yr holl gyfraniadau y DU ac Ynys Manaw

Fodd bynnag, mae llywodraeth Ynys Manaw wedi penderfynu na fyddant yn mabwysiadu'r Pensiwn y Wladwriaeth newydd o 6 Ebrill 2016.

Bydd llywodraethau y DU ac Ynys Manaw yn penderfynu y newidiadau sydd angen eu gwneud i'w trefniadau nawdd cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli o 6 Ebrill 2016, o ganlyniad i benderfyniad Ynys Manaw i beidio mabwysiadu'r Pensiwn

newydd y Wladwriaeth. Efallai y bydd y trefniadau newydd yn effeithio ar y Pensiwn y Wladwriaeth a gewch gan y DU ac Ynys Manaw. Mae hyn yn golygu fod yr amcangyfrif o Bensiwn y Wladwriaeth y DU, rydym wedi rhoi i chi yn eich datganiad efallai yn gallu newid.

Os ydych wedi gweithio o’r blaen yn y Ynys Manaw a byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 gallwch gael chi gael datganiad arall o fis Hydref 2016.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun pensiwn y wladwriaeth Ynys Manaw, a budd-daliadau eraill sydd ar gael, ewch i

**www.gov.im/categories/benefits-and-financial-support**

# Adran 3 – Pensiwn newydd y Wladwriaeth

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:
- pensiwn newydd y Wladwriaeth
- isafswm cyfnod cymhwyso
- sut byddwn yn gweithio allan eich Pensiwn newydd y Wladwriaeth
- sut y gallai yr amcangyfrif o’ch Pensiwn y Wladwriaeth a ddangosir yn eich datganiad newid
- sut bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei effeithio gan orchymun rhannu pensiwn.
- sut y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich priod neu bartner sifil, a
- sut y gallwch wella eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy dalu cyfraniadau YG gwirfoddol.

## Pensiwn newydd y Wladwriaeth

Bydd Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd gan y Llywodraeth y gallwch wneud cais amdano os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

Byddwch yn gallu cael Pensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych yn gymwys ac
- yn ddyn wedi eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- yn ferch wedi eich geni ar neu ôl 6 Ebrill 1953.

Bydd Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cymryd lle'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth presennol.

## Faint a allaf gael?

Mae rheolau gwahanol o dan y cynllun newydd yn dibynnu ar p'un ai os oes gennych gyfraniadau YG ai peidio yn y cynllun presennol.

Yn y ddau achos, i gael Pensiwn y Wladwriaeth mae'n rhaid i chi fel arfer gyfarfod yr isafswm cyfnod cymhwyso – gweler isod.

Mae llawer o bobl, fel chi, gyda chyfraniadau ar eu cofnod cyfraniadau YG am flynyddoedd treth cyn i'r cynllun newydd ddechrau ar 6 Ebrill 2016. Byddwn yn defnyddio'r cyfraniadau YG hyn i weithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth efallai byddant yn roi i chi.

Rydym yn galw'r swm hwn yn eich swm cychwynnol a'r gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

Mae'r rheolau'n gwneud yn siŵr nad yw'r swm o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch am y cyfraniadau hynny ddim llai o dan y cynllun newydd na beth a fuasech wedi ei gael o dan y cynllun presennol – cyn belled ag eich bod yn cyfarfod yr isafswm cyfnod cymhwyso.

## Beth yw'r isafswm cyfnod cymhwyso?

Byddwch angen o leiaf 10 o flynyddoedd cymhwyso (isafswm cyfnod cymhwyso fel arfer) ar eich cofnod cyfraniadau YG pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gael unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth. Nid oes rhaid iddo fod yn 10 mlynedd yn olynol. Gweler tudalen 7 am yr hyn rydym yn ei olygu wrth 'blwyddyn gymhwyso'.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd amser wedi ei dreulio'n byw neu'n gweithio y tu allan i'r DU, efallai hefyd yn eich helpu i gwrdd â'r isafswm cyfnod cymhwyso ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth y DU – gweler tudalen 33.

Mae eich datganiad yn dweud wrthych faint o flynyddoedd cymhwyso sydd gennych ar eich cofnod cyfraniadau YG ar hyn o bryd.

Efallai nad ydych yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai eich bod yn ei fodloni pan rydych yn

cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth os yw blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniad YG cyn i chi gyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler esiampl Sarah ar dudalen 26).

## Sut y byddwch yn gweithio allan fy swm cychwynnol?

Byddwn yn defnyddio'r blynyddoedd cymhwyso ar eich cofnod cyfraniadau YG, hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016, er mwyn gweithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei gael o dan y rheolau canlynol:

- cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth sy'n dechrau ym mis Ebrill 2016, sy'n seiliedig ar 1/35 o £155.65 am bob blwyddyn gymhwyso, hyd at uchafswm o 35 mlynedd, a'r
- yr hen gynllun Pensiwn y Wladwriaeth. Mae gan hyn ddwy ran – Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar 1/30 o £119.30 (y gyfradd lawn o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth - hyd at uchafswm o 30 mlynedd, a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn seiliedig ar enillion.

Efallai bydd didyniad yn cael ei wneud i'r symiau hyn am gyfnodau roeddech wedi eithrio o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016 (gweler tudalen 10).

Y swm uchaf o'r ddau swm fydd eich swm cychwynnol (gweler enghraifftiau sy'n dilyn). Eich swm cychwynnol yw'r swm y byddwch yn ei gymryd ymlaen i'r cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth, a'r lleiafswm y byddwch yn gael pan fyddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, cyn belled ag eich bod yn cyfarfod y rheol isafswm cyfnod cymhwyso. Ond gweler tudalen 27 os oes gennych orchymyn rhannu pensiwn, neu dudalen 29 os ydych wedi talu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig.

Byddwn yn gweithio allan eich swm cychwynnol yn seiliedig ar gofnod cyfraniad YG hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016 hyd yn oed os nad ydych yn cyfarfod yr isafswm cyfnod cymhwyso ar y pwynt hwnnw (gweler enghraifft Sarah ar dudalen 26).

**Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.**

**Enghraifft – mae'r swm o dan reolau'r cynllun newydd yn uwch**

Ar 6 Ebrill 2016, mae gan Jim 32 o flynyddoedd cymhwyso ar ei gofnod cyfraniadau YG. Mae wedi bod yn hunan-gyflogedig am gyfnodau hir o'i fywyd gwaith.

Gan ddefnyddio'r rheolau newydd Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth, byddai Jim yn cael £142.31 yr wythnos (£155.65 x 32/35ths).

Gan ddefnyddio'r rheolau cynllun presennol, byddai Jim yn cael £132.70 yr wythnos (£119.30 Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a £13.40 Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth).

Swm cychwynnol Jim fydd yr uchaf o'r ddau swm, sydd yn £142.31 yr wythnos.

## A fydd y swm a ddangosir yn fy natganiad yn newid os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniad YG ar gyfer blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016?

Amcangyfrif o swm y Pensiwn y Wladwriaeth a ddangosir yn eich datganiad o beth efallai fydd eich swm cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth – y swm y byddwch yn gymryd ymlaen i'r cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth – yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniad YG fel mae'n sefyll ar y dyddiad a ddangosir yn eich datganiad.

Os bydd blynyddoedd pellach yn cael eu hychwanegu i'ch cofnod cyfraniad YG ar gyfer blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016, bydd yr amcangyfrif o'ch Pensiwn y Wladwriaeth a roddir yn eich datganiad – amcangyfrif presennol o'ch swm cychwynnol – efallai'n newid.

**Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.**

**Enghraifft – blynyddoedd cymhwyso pellach wedi eu hychwanegu at gofnod cyfraniadau YG cyn 6 Ebrill 2016**

Mae Asif wedi derbyn datganiad yn seiliedig ar ei gofnod cyfraniad YG hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2014/2015, a oedd yn dangos fod ganddo 27 o flynyddoedd cymhwyso. Amcangyfrifwyd

ei Bensiwn y Wladwriaeth fel £120.07 yr wythnos.

Pan gychwynodd Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016, mae Asif wedi ychwanegu blwyddyn gymhwyso pellach 2015/2016.

Nawr mae ganddo 28 o flynyddoedd cymhwyso. Mae hyn wedi cynyddu ei swm cychwynol i £124.52 yr wythnos.

## Os bydd eich swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn newid a fydd hyn yn effeithio ar eich Swm Cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth?

Pan fyddwn yn gweithio allan eich Swm Cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth (gweler tudalen 23), rydym yn ystyried eich swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio COPE (gweler tudalen 20).

O dan rai amgylchiadau, mae'r swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio COPE yn cael ei gynnwys yn eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu pan gaiff ei werthuso eto fel yr oedd ar 6 Ebrill 2016. Bydd hyn yn digwydd os ydych yn dal yn aelod o gynllun pensiwn eithrio hyd at 6 Ebrill, 2016.

Gall hyn hefyd ddigwydd os :
- oeddech yn aelod o gynllun pensiwn gweithle unrhyw bryd rhwng 1978 a 1997, ac mae'r pensiwn a gewch yn gysylltiedig â'ch enillion (er enghraifft - cynlluniau Budd-daliadau Diffiniedig, cyflog terfynol neu gyflog cyfartalog), a
- eisoes wedi gadael neu'n gadael y cynllun hwn cyn 6 Ebrill 2016, ac
- mae eich cynllun pensiwn yn ailbrisio eich buddion pensiwn diogel bob blwyddyn gan ganran sy'n fwy na'r enillion cyfartalog cenedlaethol.

Os digwydd hyn gallai eich Swm Cychwynnol ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth fod yn is na'r amcangyfrif o Bensiwn y Wladwriaeth a ddangosir yn eich Datganiad Pensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, at ei gilydd ni ddylech golli allan gan hyn gan fod y

gwerth eich cynllun budd-daliadau preifat fel arfer yn cynyddu gan swm cyfatebol os bydd hyn yn digwydd.

Efallai y byddwch hefyd yn gallu ychwanegu blynyddoedd cyfraniadau YG pellach ar ôl 6 Ebrill 2016 i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 30).

**Enghraifft - swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio yn newid.**
Ar ôl 6 Ebrill 2016, amcangyfrif Swm Cychwynol Margaret ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth yw £135.65 yr wythnos (gan ddefnyddio rheolau'r cynllun newydd). Ar hyn o bryd mae ganddi 35 o flynyddoedd cymhwyso. Mae ei datganiad hefyd yn rhoi amcangyfrif swm Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio o £20.00 yr wythnos ac yn esbonio bod ychwanegu'r ddau at ei gilydd yn £155.65 yr wythnos.

Yn Ebrill 2016 nid oedd datganiad Pensiwn y Wladwriaeth Margaret yn cynnwys gwybodaeth cyfraniadau YG ar gyfer y flwyddyn 2015/2016 a gwybodaeth o'i chynllun pensiwn preifat am ei budd-daliadau eithrio. Pan mae gwybodaeth wedi'i ddiweddaru yn cael ei dderbyn, mae'r cyfrifiad newydd yn dangos fod y cyfanswm o'i Swm Cychwynnol a'i Pensiwn Cyfwerth wedi'i Eithrio yn £155.65 o hyd, ond bod y Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio wedi cynyddu i £22.70 yr wythnos ac mae'r taliad Pensiwn y Wladwriaeth nawr yn £132.95 yr wythnos. Mae Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio Margaret wedi cynyddu oherwydd bod ganddi flwyddyn ychwanegol o eithrio wedi'i hychwanegu i'w cofnod YG. Dylai ei chynllun pensiwn preifat gynnwys swm sy'n cyfateb i'r ffigur Pensiwn Cyfwerth Wedi'i Eithrio fel rhan o fudd-daliadau pensiwn preifat Margaret, ac felly ni ddylai fod wedi colli allan.

Os ydych wedi gadael eich cynllun ac rydych yn ansicr a yw hyn yn berthnasol i chi, dylech gysylltu â'ch cynllun pensiwn preifat.

## Pa bryd fyddwch yn gallu dweud wrthyf fy swm cychwynnol?

Gallwn ddweud wrthych beth fydd eich swm cychwynnol mewn gwirionedd pan fydd eich holl gyfraniadau a chredydau hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016 wedi cael eu cofnodi ar eich cofnod cyfraniadau YG. Gallwn ddweud wrthych beth fydd eich swm cychwynnol hyd yn oed os oes gennych lai na 10 mlynedd cymhwyso ar eich cofnod cyfraniad YG.

Efallai y byddwch eisiau gofyn am ddatganiad arall Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl i'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth ddechrau ym mis Ebrill 2016.

Cyn belled â'ch bod yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, eich swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yw'r lleiaf y byddwch yn ei gael, er efallai bydd yn fwy.

Gweler tudalen 19, sy'n esbonio sut y gallai swm eich Pensiwn y Wladwriaeth fod yn wahanol os oes gorchymyn rhannu pensiwn mewn grym pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## A fydd blynyddoedd cymhwyso wedi eu hychwanegu at fy nghofnod cyfraniad YG ar gyfer blynyddoedd treth o 6 Ebrill 2016 ymlaen yn gwella fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Os yw eich swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yn llai na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth, gallwch ei gynyddu drwy ychwanegu. Ar gyfer pob blwyddyn gymhwyso ychwanegol byddwch yn cael 1/35th o'r swm llawn o newydd Bensiwn y Wladwriaeth – tua £4.45 yr wythnos.

Fodd bynnag, ni all eich swm cychwynnol ynghyd ag unrhyw beth yr ydych yn ychwanegu ar ôl Ebrill 2016 fod yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn y Wladwriaeth newydd.

**Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.**

**Enghraifft – mae'r swm cychwynnol yn llai na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth**

Mae Sonya i fod i gyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mawrth 2024. Mae ei swm cychwynnol ym mis Ebrill 2016 yn £133.41 yr wythnos.

Ar ôl Ebrill 2016, bydd Sonya yn parhau i weithio a thalu Yswiriant Gwladol. Ar ôl 5 mlynedd (ar 6 Ebrill 2021) mae hi wedi cyrraedd y Pensiwn y Wladwriaeth lawn. Mae hyn oherwydd ei bod wedi ychwanegu £22.24 yr wythnos i'w swm cychwynnol ar gyfer pob pum mlynedd gymhwyso ychwanegol YG mae hi wedi ychwanegu at ei chofnod cyfraniad (£155.65 x 5/35).

Pan fydd hi'n cyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd Pensiwn y Wladwriaeth Sonya yn £155.65 yr wythnos. Ni all Sonya gael mwy na'r gyfradd lawn.

Os yw eich swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yr un peth â chyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth, dyma'r swm y byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth – yn destun i unrhyw orchymyn rhannu pensiwn (gweler tudalen 27). Ar wahân i'r cynnydd blynyddol arferol, ni fydd yn mynd i fyny hyd yn oed os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG ar ôl 6 Ebrill 2016.

Os yw eich swm cychwynnol ar 6 Ebrill 2016 yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth yna, yn destun i unrhyw orchymyn rhannu pensiwn (gweler tudalen 27), byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth lawn. Byddwch yn cael taliad am y gwahaniaeth rhwng eich swm cychwynnol a'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth fel Taliad Gwarchodedig.

**Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.**

### Enghraifft – mae'r swm cychwynnol yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth

Mae Adrian i fod i gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mehefin 2020. Mae ei swm cychwynnol ym mis Ebrill 2016 yn £172.48 yr wythnos.

Gan fod ei swm cychwynnol yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn y Wladwriaeth newydd (£155.65 yr wythnos), hyn yw'r mwyaf y gall Adrian gael pan yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Ni fydd yn mynd i fyny, hyd yn oed os bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at gofnod cyfraniadau YG Adrian cyn iddo gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Felly, pan fydd Adrian yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth bydd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth o £155.65 yr wythnos, gyda'r gweddill o £16.83 yr wythnos dalu fel Taliad a Warchodir – £172.48 yr wythnos i gyd.

## Beth os oes gennyf lai na 10 mlynedd cymhwyso

Os oes gennych o leiaf blwyddyn o gyfraniadau neu gredydau YG ar gyfer blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2016, bydd gennych swm cychwynnol o hyd ar 6 Ebrill 2016. Fodd bynnag, fel arfer ni fyddwch yn cael taliad o Bensiwn y Wladwriaeth os nad ydych yn bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso o, o leiaf 10 mlynedd cymhwyso pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 20).

Gallwch ychwanegu digon o flynyddoedd cymhwyso i'ch cofnod cyfraniad YG i gyfarfod yr isafswm cyfnod cymhwyso pan fyddwch yn cyraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

**Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.**

**Enghraifft – gyda llai na 10 o flynyddoedd cymhwyso ar 6 Ebrill 2016**

Mae Sarah i fod i gyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Chwefror 2024.

Ar 6 Ebrill 2016 mae gan Sarah chwe mlynedd cymhwyso ar ei chofnod cyfraniad YG, sy'n rhoi swm cychwynnol iddi ar gyfer Pensiwn newydd y Wladwriaeth o £28.56 yr wythnos.

Os na fuasai blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu i gofnod cyfraniad YG Sarah cyn iddi gyrraedd ei hoedran Pension y Wladwriaeth, ni fyddai'n bodloni'r isafswm cyfnod cymhwyso ac ni fyddai'n cael Pensiwn y Wladwriaeth.

**Fodd bynnag**, ar ôl mis Ebrill 2016 mae Sarah yn gweithio ac yn talu cyfraniadau YG, ac mae saith mlynedd cymhwyso pellach yn cael eu hychwanegu at ei chofnod cyfraniad YG. O ganlyniad, mae ganddi 13 o flynyddoedd cymhwyso ar ei chofnod cyfraniad YG pan fydd yn cyrraedd ei hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac mae'n bodloni yr isafswm cyfnod cymhwyso.

Buasai'n cael Pensiwn y Wladwriaeth o £59.69 yr wythnos. Mae hyn wedi cael ei wneud i fyny o'i swm cychwynnol o £28.56, a £31.13 yr wythnos (£155.65 x 7/35) ar gyfer y saith mlynedd cymhwyso a ychwanegodd at ei chofnod cyfraniadau YG ar ôl mis 6 Ebrill 2016.

## A fydd fy Mhensiwn newydd y Wladwriaeth yn mynd i fyny bob blwyddyn?

Bob blwyddyn bydd eich Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn mynd i fyny yn unol gydag o leiaf twf mewn enillion cyfartalog. Os oes gennych Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gweler tudalen 8) neu Daliad Gwarchodedig (gweler tudalen 26) bydd fel arfer yn mynd i fyny bob blwyddyn yn unol o leiaf â'r cynnydd mewn prisiau.

Gweler tudalen 34 am ragor o wybodaeth am daliadau pensiwn y DU y tu allan i'r DU.

## Beth sy'n digwydd os oes gennyf orchymyn rhannu pensiwn?

Nid yw eich swm cychwynnol Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn cymryd i ystyriaeth unrhyw orchymyn rhannu pensiwn efallai sydd mewn grym ar yr amser hynny. Mae eich swm cychwynnol yn cael ei weithio allan fel pe bai na fyddai gorchymyn rhannu pensiwn mewn grym.

Bydd gwerth gorchymyn rhannu pensiwn mewn grym pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei ychwanegu at neu ei dynnu o'ch Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn ei hawlio.

Telir gwerth unrhyw orchymyn rhannu pensiwn i chi sydd wedi cael ei wneud o'ch plaid pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, hyd yn oed os nad ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.

**Dim ond ar gyfer dibenion enghreifftiol mae cynnwys yr enghreifftiau yn y daflen hon.**

**Enghraifft – Effaith gorchymyn rhannu pensiwn**

Mae Brian i fod i gyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth ym mis Mehefin 2020. Mae ei swm cychwynnol ym mis Ebrill 2016 yn £172.90 yr wythnos.

Pan gafodd Brian ysgariad yn 2012 gwnaeth y llys orchymyn rhannu pensiwn gan ddyfarnu rhan o'i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i'w wraig, Sandra. Pan fydd yn cyrraedd ei oedran Pensiwn y Wladwriaeth bydd hyn yn cael ei brisio ar £15 yr wythnos.

Pan fydd Brian yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth bydd yn cael £157.90 yr wythnos (£172.90 llai £15). Bydd yn cael Pensiwn y Wladwriaeth o £155.65 yr wythnos, gyda'r gweddill o £2.25 yr wythnos yn cael ei dalu fel Taliad Gwarchodedig.

Gan ddefnyddio ei chofnod cyfraniadau YG ei hun, Pensiwn y Wladwriaeth Sandra yw £125.30 yr wythnos. Bydd yn cael ei thalu Pensiwn y Wladwriaeth o £140.30 yr wythnos (£125.30 a £15).

## Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn newydd y Wladwriaeth?

Mae rhagor o wybodaeth am Bensiwn newydd y Wladwriaeth ar gael ar-lein.

Dod o hyd i fwy o wybodaeth ar **www.gov.uk/new-state-pension**

## Pensiwn y Wladwriaeth drwy eich priod neu bartner sifil

Bydd Pensiwn newydd y Wladwriaeth fel arfer yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniad YG eich hun. Mae'r adran hon yn esbonio pa bryd efallai y gallwch:

- etifeddu rhywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth os ydych yn weddw
- cael cynnydd os oeddech wedi talu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig gwragedd priod a gweddw (a elwir hefyd yn stamp "gwraig briod").

## Beth allaf etifeddu os ydwyf yn weddw?

Efallai y gallwch etifeddu rhywfaint o **Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth** os:

- rydych yn weddw eisioes, neu rydych yn weddw cyn 6 Ebrill 2016, neu
- rydych yn weddw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 ac roedd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn y dyddiad hwnnw.

Mae Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn rhan o'r cynllun Pensiwn y Wladwriaeth presennol a elwir hefyd yn SERPS, neu Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Efallai y gallwch etifeddu hanner **Taliad Gwarchodedig** eich gŵr, gwraig neu bartner sifil os ydych yn weddw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 ac maent:

- wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, neu
- wedi marw cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Byddant yn cael Taliad Gwarchodedig os yw eu swm cychwynnol yn fwy na'r gyfradd lawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth ym mis Ebrill 2016 (gweler enghraifft Adrian ar dudalen 26).

Mae'n rhaid i'ch priodas neu bartneriaeth sifil fod wedi dechrau cyn 6 Ebrill 2016 i chi allu etifeddu unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth neu Daliad Gwarchodedig.

Efallai byddwch yn gallu etifeddu rhagor o Bensiwn y Wladwriaeth os oedd eich priod neu bartner sifil:

- wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2- 16 ac
- wedi oedi gwneud cais (gohirio) eu Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf 12 mis, a
- marw cyn iddynt wneud cais am eu Pensiwn y Wladwriaeth.

Bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi'i etifeddu yn cael ei dalu ar ben eich Pensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, byddwch yn cael taliad o Bensiwn y Wladwriaeth wedi ei etifeddu o hyd, hyd yn oed os nad ydych yn cyfarfod y rheol 10 mlynedd isafswm cymhwyso ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth yn seileidig ar eich cyfraniadau YG eich hun.

Ni fyddwch yn gallu etifeddu unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth os ydych yn weddw o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac rydych yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Beth allaf gael os ydwyf wedi talu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig?

Os dewisioch dalu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig, efallai y gallwn weithio allan eich Pensiwn y Wladwriaeth o dan reolau gwahanol os bydd hyn yn rhoi mwy o Bensiwn y Wladwriaeth i chi na fuasech yn gael yn seiliedig ddim ond ar eich cofnod cyfraniadau YG eich hun.

Byddwn yn gallu gwneud hyn os oedd gennych yr hawl o hyd i dalu cyfraniadau YG cyfradd ostyngedig ar ddechrau'r cyfnod 35 mlynedd sy'n dod i ben ar y 5 Ebrill cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os yw hyn yn berthnasol i chi:

- ni fyddwch angen bod gydag o leiaf 10 mlynedd gymhwyso eich hun i allu cael Pensiwn y Wladwriaeth

- byddwch yn cael yr uchaf o:
  - Pensiwn y Wladwriaeth sydd tua'r un fath a'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth y system bresennol ar gyfer gwraig briod, gweddw neu gwraig wedi ysgaru sy'n hawlio ar gyfraniadau YG ei gŵr (yn dibynnu ar eich statws priodasol) ac unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth roeddech wedi ei adeiladu eich hun
  - Pensiwn y Wladwriaeth o dan reolau Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniad YG eich hun.

Os ydych wedi derbyn datganiad yn seiliedig ar eich cofnod cyfraniad YG eich hun ond yn meddwl efallai eich bod yn bodloni'r amod ar gyfer rheolau gwahanol, efallai byddwch yn dymuno cael datganiad yn dangos faint efallai gewch yn seiliedig ar y rheolau hyn. Gallwch gael datganiad drwy ffonio'r rhif a ddangosir ar dudalen 31.

Os ydych yn weddw efallai y gallwch hefyd etifeddu Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth neu Daliad Gwarchodedig gan eich diweddar briod, fel ag yr esbonir uchod.

Dod o hyd i fwy o wybodaeth ar
**www.gov.uk/state-pension-through-partner**

## Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth drwy dalu cyfraniadau YG gwirfoddol

Efallai y byddwch yn gallu talu cyfraniadau gwirfoddol Dosbarth 2 neu YG Dosbarth 3 ar gyfer blynyddoedd lle nad oes gennych ddigon o gyfraniadau neu gredydau ar eich cofnod cyfraniadau YG am flwyddyn i gyfrif fel blwyddyn gymhwyso.

Dylech feddwl yn ofalus ynghylch â p'un ai yw talu cyfraniadau YG gwirfoddol yw'r dewis iawn i chi. Os ydych yn gweithio neu'n cael rhai budd-daliadau, efallai y bydd blynyddoedd cymhwyso pellach yn cael ei ychwanegu at eich cofnod cyfraniadau YG cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Cyn i chi benderfynu i dalu unrhyw gyfraniadau YG gwirfoddol, efallai y byddwch am aros hyd nes y gallwn ddweud wrthych faint fydd eich

gwir swm cychwynnol.  Byddwn yn gallu gwneud hyn pan fydd eich cyfraniadau a chredydau hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016 yn cael eu cofnodi ar eich cofnod cyfraniadau YG.

Dod o hyd i fwy o wybodaeth ar **www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions**

# Adran 4 – Gweithio neu'n byw y tu allan i'r DU

Yn yr adran hon rydym yn esbonio:
- beth i'w wneud os ydych wedi talu cyfraniadau dramor
- sut mae talu cyfraniadau wedi eu talu dramor yn cyfri tuag at Bensiwn y Wladwriaeth y DU
- sut efallai na fydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu yn flynyddol os ydych yn byw mewn gwledydd penodol.

## Amser wedi ei dreulio yn gweithio y tu allan i'r DU

Os ydych yn gweithio y tu allan i'r DU, efallai y byddwch yn gallu talu i mewn i'r cynllun pensiwn y wladwriaeth y wlad lle rydych yn gweithio. Gallwch wneud hyn yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a rhai gwledydd eraill lle mae trefniadau arbennig.

Os ydych wedi talu i mewn i'r cynllun pensiwn gwlad arall, dylech gysylltu â'r adran sy'n gyfrifol am dalu pensiynau'r wladwriaeth yn y wlad honno i weld beth fydd trefniadau eraill wedi'u gwneud.

## Effaith ar Bensiwn y Wladwriaeth y DU

Yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych yn gweithio y tu allan i'r DU, a'r wlad lle'r ydych yn gweithio, efallai bydd y cyfraniadau yr ydych wedi eu talu dramor yn cael eu defnyddio wrth weithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth y DU mae gennych hawl iddo. Neu gallech gael dau bensiwn – un o'r DU ac un o'r wlad lle rydych yn byw ac yn gweithio.

Efallai y byddwn yn gallu defnyddio cyfraniadau YG rydych wedi eu gwneud dramor i gwrdd â'r isafswm cyfnod cymhwyso ar gyfer y cynllun newydd Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalen 18).

Nid yw'r symiau a ddangosir yn eich datganiad yn cymryd i ystyriaeth unrhyw amser rydych wedi'i dreulio mewn gwlad arall neu unrhyw gynllun pensiwn tramor efallai y byddwch wedi talu i mewn.

## Taliadau Pensiwn y Wladwriaeth y DU y tu allan i'r DU

Fel arfer, gallwch gael eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn unrhyw le rydych yn byw. Fodd bynnag, os ydych yn byw y tu allan i'r DU ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth y DU, ni fyddwch yn cael cynnydd blynyddol oni bai eich bod yn byw:

- mewn gwlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
- Swistir, neu
- gwlad sydd â threfniant â'r DU sy'n caniatáu'r cynnydd hwn.

Os ydych yn byw mewn gwlad lle nad yw eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn cynyddu, efallai y bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn mynd i fyny am yr amser pan fyddwch yn ymweld â'r DU neu wledydd eraill lle bydd y cynnydd blynyddol yn cael ei dalu. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r wlad lle rydych yn byw yn barhaol, bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn cael ei dalu ar y gyfradd arferol.

Mae mwy o wybodaeth am y gwledydd lle mae'r cynnydd yn cael ei dalu, a sut mae Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn cael ei dalu i bobl sy'n byw y tu allan i'r DU ar gael ar-lein.

**www.gov.uk/state-pension-if-you-retire-abroad**

# Adran 5 – Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich datganiad Pensiwn y Wladwriaeth neu bensiynau yn gyffredinol ar-lein, neu drwy ffonio neu ysgrifennu atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddangosir isod.

**www.gov.uk/state-pension**
**www.gov.uk/new-state-pension**

Ffôn: **0345 300 0168**
Ffôn testun: **0345 300 0169**
8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O'r tu allan i'r DU

Ffôn: **+44 191 218 3600**
Ffôn testun: **+44 191 218 2051**
8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ysgrifennwch atom yn:
The Pension Service 9
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LU

# Cost galwadau

Nid yw galwadau i rifau **0345** yn costio mwy na galwad ddaearyddol safonol, ac yn cyfrif tuag at unrhyw funudau am ddim neu gynhwysol yn eich contract llinell daear neu ffôn symudol.

**Noder:** Gall ffonio rhifau sydd ddim yn ddearyddol yn y DU o dramor olygu cost sylweddol. Gofynnwch i'ch darparwr gwasaneth ffôn.

Gallwch ofyn i'n cysylltydd eich ffonio nôl – rhowch eich rhif ffôn iddo.

**Ffonau testun – os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw**
Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell leol neu Gyngor ar Bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

## Gwybodaeth bwysig am y daflen hon Gwybodaeth bwysig am y daflen hon.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Chwefrorl 2016. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Mae rhagor o wybodaeth gan Adran Gwaith a Phensiynau am fudd-daliadau a phensiynau a gyhoeddwyd ar-lein.

Am wybodaeth budd-daliadau
**www.gov.uk/browse/benefits**

Am wybodaeth pensiynau
**www.gov.uk/state-pension**
**www.gov.uk/new-state-pension**

ISBN 978-1-78425-756-9